

Tracey Burke  
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp Addysg a  
Gwasanaethau Cyhoeddus  
Llywodraeth Cymru

13 Rhagfyr 2018

Annwyl Ms Burke

### **Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru**

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ochr yn ochr â'ch cydweithwyr ar 3 Rhagfyr. Diben y llythyr hwn yw codi nifer o faterion a godwyd gan yr Aelodau ar ôl ystyried eich tystiolaeth. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gennych ar y materion hyn, yn ogystal â'r nodiadau y gwnaethoch gytuno i'w darparu yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

Yn ei adroddiad ar y Rhaglen Cefnogi Pobl, mynegodd y Pwyllgor rywfaint o amheuaeth ynghylch a fyddai digon o wybodaeth ar gael erbyn hydref 2018 i gefnogi penderfyniad sydd â thystiolaeth dda, o ran bwrw ymlaen â chynlluniau gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer grant ymyrraeth gynnar, atal a chymorth newydd o 2019-20. Yr oeddech eisoes wedi cydnabod efallai na fyddai ymagwedd 'clec fawr' wedi'r cyfan. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar farn y rhai sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni allweddol cyn dod i'w benderfyniad i weithredu strwythur dau grant ac i ddiogelu dyraniadau'r gyllideb, o leiaf yn y tymor byr i ganolig.

Yn eich tystiolaeth, pwysleisiwyd fod gwerthuso'r rhaglen ariannu hyblyg yn 'werthusiad o broses' sy'n mabwysiadu ymagwedd 'ymchwil weithredu'. Er ein bod yn cydnabod y pwyntiau a wnaethoch wrth ddisgrifio'r gwerthusiad yn y modd hwn, roedd yr Aelodau'n dal i fod ychydig yn amheus ynglŷn â'r effaith y bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu strwythur dau grant bellach yn ei chael ar gwmpas y gwaith gwerthuso y tu hwnt i'r cam interim. Yn y cyd-destun hwnnw, mynegodd yr Aelodau bryder hefyd am werth am arian cyffredinol yr



ymarfer gwerthuso. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi rhagor o fanylion ynglŷn a chwmpas ail gam y gwerthusiad ac, yn benodol, sut y mae hyn yn addasu mewn ymateb i strwythur dau grant newydd. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu cadarnhad o gost gyffredinol y gwaith gwerthuso.

Nododd y Pwyllgor yn ystod y sesiwn dystiolaeth nad oedd y gwerthusiad interim yn enwi awdurdodau unigol. Er ein bod yn cydnabod y rhesymeg a gyflwynwyd gennych, credwn y byddai o gymorth pe gallai'r gwerthusiad terfynol dynnu sylw at enghreifftiau o arfer da yn fwy eglur. Bydd y Pwyllgor yn ystyried a yw'n dymuno cymryd rhagor o dystiolaeth ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso terfynol.

Mae hefyd yn amlwg y bydd angen gwneud gwaith pellach ar ôl Ebrill 2019 i ystyried pa mor effeithiol y mae'r trefniadau dau grant newydd yn cael eu cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar gyfleoedd integreiddio lle maent yn codi a gwneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd o ran gweinyddiaeth lle bynnag y mae'n bosibl er nad yw dyraniadau'r gyllideb wedi'u lleihau yn y tymor byr. Felly, byddai'r Pwyllgor yn eich annog i roi ystyriaeth bellach i hynny, gan gynnwys unrhyw waith pellach y gall Cymdeithas Trysoryddion Cymru ei wneud. Fe wnaethoch awgrymu fod y cynnydd gyda gwaith y Gymdeithas wedi bod, 'ychydig yn siomedig' hyd yn hyn.

Yn ei adroddiad, nododd y Pwyllgor fod y cynigion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2017 wedi creu ansicrwydd ynghylch sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd ganddi yn ei hymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar y Rhaglen Cefnogi Pobl. Yn ganolog iddynt, mae llawer o'r materion a gwmpesir gan yr argymhellion hynny yn parhau i fod yn berthnasol waeth beth fydd strwythur unrhyw drefniadau grant yn y dyfodol. Gyda'r penderfyniad i greu Grant Cymorth Tai newydd, lle mai'r cyllid Cefnogi Pobl fydd yr elfen fwyaf ohono, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu sy'n weddill mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol cyn gynted â phosibl, gan gydweithio'n agos â'r rheini sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen. Yn yr un modd, lle mae camau gweithredu perthnasol i'w cyflawni o hyd mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, byddwn yn gofyn ichi nodi amserlen ddiwygiedig yn glir ar gyfer y camau gweithredu hyn, gan gynnwys, er enghraifft, mater y fformiwla ariannu y mae'n hen bryd gwneud rhywbeth yn ei gylch.

Nodwyd eich sylwadau hefyd am y strwythurau llywodraethu rhanbarthol ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl yng nghyd-destun ymddangosiad y Byrddau Partneriaeth



Rhanbarthol. Mae tirlun cymhleth trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor wedi ei drafod yn ddiweddar mewn gwahanol gyd-destunau ac mae'n ymddangos bod angen sylw brys arno, nid yn unig yng nghyd-destun y Grant Cymorth Tai newydd, ond yn fwy cyffredinol. Rydym yn deall y gall Llywodraeth Cymru fod yn gwneud rhywfaint o waith ehangach yn hyn o beth i fapio trefniadau a byddem yn croesawu unrhyw fanylion pellach y gallwch eu darparu ynghylch sut y mae unrhyw waith i resymoli strwythurau gweithio mewn partneriaeth yn mynd rhagddo.

Holwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth a oedd newidiadau yng nghanllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi mynd i'r afael yn llawn â'r pryderon a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch y posibilrwydd o gamddehongli'r amgylchiadau lle dylai awdurdodau lleol ail-dendro am wasanaethau. Fe wnaethoch ymrwymo i gynnal trafodaethau pellach gyda thîm astudio'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch y mater hwn a byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf maes o law os bydd y trafodaethau hynny'n arwain at unrhyw eglurhad pellach yn y canllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai newydd.

Yn olaf, fe wnaethom drafod y paratodau sydd bellach yn cael eu gwneud ar gyfer cyflwyno'r Grant Cymorth Tai newydd a rhai o'r amseriadau cysylltiedig. Byddai o gymorth pe gallech gadarnhau'n ysgrifenedig y cerrig milltir allweddol rhwng nawr a mis Ebrill 2019, gan gynnwys, er enghraifft, ar gyfer cyhoeddi canllawiau a pharatoi / adolygu cynlluniau gwario.

Yn gywir,



**Adam Price AC (Cadeirydd dros dro) ar ran Nick Ramsay AC, Cadeirydd**

